Annwyl Feistri

Yn ein cyfarfodydd CYSAG diweddar rydym wedi bod yn edrych ar ddiweddaru'r canllawiau rydym yn eu cynnig i ysgolion yn y sir ynghylch Addoli ar y Cyd.

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae'r gofynion cyfreithiol presennol ar ysgolion o ran Addoli ar y Cyd yn anymarferol ac nid ydynt bellach yn adlewyrchu realiti bywyd o ddydd i ddydd yng Nghymru. Wrth i'r cwricwlwm ddod yn fwy cynhwysol a cheisio adlewyrchu bywyd fel y mae'r disgyblion yn ei fyw, mae'n dod yn fwy o frys, yn ein barn ni, i ailystyried y gyfraith ynghylch Addoli ar y Cyd.

Pan godwyd y mater hwn yn y blynyddoedd diwethaf gyda Llywodraeth Cymru, gan sefydliadau dyneiddiol fel arfer, ein dealltwriaeth ni yw y cafwyd ymateb llai na chalonogol a theimlwn yn gryf na fydd dim yn newid y math hwnnw o ymateb hyd nes y bydd yr eglwysi eu hunain yn gofyn am newid.

Mae'r gyfraith ar Addoli ar y Cyd mewn ysgolion yn breintio'r ffydd Gristnogol. Credwn, felly, ei bod yn ddyletswydd ar yr eglwysi eu hunain, fel ei phrif fuddiolwyr, i bwyso am newid, gan gydnabod na ellir goddef y sefyllfa bresennol a'i bod mewn gwirionedd yn arwain at lai o Addoli ar y Cyd mewn ysgolion yn hytrach na mwy, gan ei fod yn hysbys nad oes disgwyl i arolygiadau ymchwilio i berfformiad ysgol yn hyn o beth.

Fel CYSAG, sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol i fonitro Addoli ar y Cyd mewn ysgolion, nid ydym yn awyddus i gau ein llygaid a dim ond stwna â'r arweiniad a roddwn i ysgolion o dan ein gofal, ond yn hytrach rydym yn awyddus i weld y gyfraith bresennol yn cael ei newid, i gynorthwyo pob ysgol i ymgysylltu o ddifrif â'u disgyblion trwy amseroedd addoli a myfyrio creadigol a meddylgar, y gellir eu hintegreiddio'n bragmatig i'r amserlen wythnosol. I ni mae hyn yn fater o gyfiawnder ac o iechyd meddwl a llesiant disgyblion.

Yr ydym felly yn ysgrifennu at holl arweinwyr eglwysi cenedlaethol Cymru i ofyn a yw newid i'r gyfraith ar Addoli ar y Cyd mewn ysgolion ar eu hagenda ac os nad ydyw, i'w hannog i ystyried gweithredu ar y cyd ag eglwysi eraill i unioni sefyllfa a adawyd i symud cymaint oddi wrth brofiadau ysgolion a phlant ers cyhyd.

Yn gywir,

**Y Cynghorydd Menna Baines**
**Cadeirydd CYSAG Gwynedd, 2022/2023**